



Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Y Llwyfan
Heol y Coleg
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA31 3EQ

gwybodaeth@colegcymraeg.ac.uk

5 Mehefin 2023

Annwyl Ioan,

Rwy'n ysgrifennu atoch ynghylch dynodi person i roi cyngor i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ('y Comisiwn') ar gyflawni ei ddyletswydd i hyrwyddo addysg drydyddol trwy gyfrwng y Gymraeg fel y darperir ar ei chyfer yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022.

Mae'r Ddeddf, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Medi 2022, yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer sefydlu'r Comisiwn ac mae'n nodi 11 o ddyletswyddau strategol i fframio cyfeiriad strategol a ffocws y Comisiwn a chefnogi cyflawni ei swyddogaethau, gan ddarparu eglurder ynghylch ei bwrpas a'i gylch gwaith cyffredinol.

Mae un o'r dyletswyddau strategol hyn (fel y darperir ar ei chyfer yn adran 9 o'r Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn annog y galw am addysg drydyddol a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg a chyfranogiad ynddi.

Mae'n ofynnol hefyd i'r Comisiwn gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod digon o addysg drydyddol yn cael ei darparu drwy gyfrwng y Gymraeg i ateb y galw, ac i annog darparu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae adran 9(2) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddynodi person i roi cyngor perthnasol i'r Comisiwn ar gyflawni'r ddyletswydd hon. Mae adran 9(4) yn nodi materion y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu hystyried cyn dynodi person o'r fath.

Ni chaniateir i berson gael ei ddynodi o dan is-adran (2) ond os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y person yn addas i roi cyngor ar y canlynol:

- (a) hybu, cynnal, datblygu a chynllunio addysg drydyddol a ddarperir yng Nghymru drwy gyfrwng y Gymraeg,
- (b) hyrwyddo caffael a gwella sgiliau Cymraeg,
- (c) cynnal, datblygu, cynllunio a darparu gweithgareddau i gefnogi caffael a gwella sgiliau Cymraeg, a

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@llyw.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

(d) cydlafurio rhwng darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru mewn perthynas â'r materion a grybwyllir ym mharagraffau (a) i (c).


Fel darparwr sydd wedi'i hen sefydlu sydd â rhwydweithiau helaeth eisoes a chyfoeth o brofiad o ddatblygu a chefnogi addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg, ynghyd â phrofiad o weithio gyda Llywodraeth Cymru mewn cyd-destun polisi sy'n gysylltiedig â darpariaeth cyfrwng Cymraeg, rwy'n ystyried mai chi sydd yn y sefyllfa orau i gael eich dynodi fel y person i roi cyngor i'r Comisiwn.

O'r herwydd, ac yn amodol ar eich cytundeb, rwyf drwy hyn yn dynodi'r Coleg fel y person i roi cyngor i'r Comisiwn er mwyn ei gynorthwyo i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 9(1) o'r Ddeddf. Bydd gofyn i'r Comisiwn roi sylw i unrhyw gyngor perthnasol a roddwch iddo o fis Ebrill 2024, pan fwriedir i'r Comisiwn ddod yn weithredol.

Bydd y dynodiad hwn yn parhau yn ei le hyd nes y byddwch naill ai'n tynnu eich caniatâd yn ôl neu bod Gweinidogion Cymru yn dileu'r dynodiad.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau eich bod yn cytuno i hyn erbyn 16 Mehefin 2023 fan bellaf.

Yn gywir



Jeremy Miles AS/MS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language